**Dyddiad:** Dydd Gwener, 16 Mehefin 2000

**Amser:** 10.00 - 1.00

**Lleoliad:** Clwb Cymdeithasol Penlan, Penlan, Abertawe

**CYFLWYNO PAPUR I'R PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH AR Y 18 MAI 2000 (EPT-02-00(p.2)**

**ADOLYGIAD POLISI CLUDIANT CYHOEDDUS**

**Testun**

1. Ceisio barn y Pwyllgor ar gynlluniau'r cyn-Bwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd (LGE) i ymgymryd ag adolygiad polisi o gludiant cyhoeddus.

**Cefndir**

2. Yn eu cyfarfod ar 8 Rhagfyr 1999 bu i'r cyn-Bwyllgor LGE gytuno i ymgymryd ag adolygiad polisi o gludiant cyhoeddus yng Nghymru a phenodi ymgynghorydd arbenigol i roi cyngor annibynnol yn ystod yr adolygiad. Atodir detholiad o'r cofnodion a phapur LGE-10-99 (p.5) yn nodi cylch gorchwyl yr adolygiad yn Atodiadau A a B.

3. Nododd y papur gwreiddiol nifer o gyrff y byddai'r Pwyllgor yn ymgynghori gyda hwy fel rhan o'r adolygiad. Ers hynny, mae'r sefydliadau canlynol wedi gofyn i gael eu hychwanegu at y rhestr: Asiantaeth yr Amgylchedd; Cyngor Cefn Gwlad Cymru; Clwb Tiethiau Seiclo (Cycle Touring Club); Y Gymdeithas Datblygu Rheilffyrdd, Cymdeithas Swyddogion Cydlynu Cludiant; EFCop (Grp Rheoli'r Ymgyrch Trafnidiaeth Gynaliadwy i Gymru.

**Penodi ymgynghorydd arbenigol**

4. Gwahoddodd y Pwyllgor LGE geisiadau am ymgynghorydd arbenigol. Derbyniwyd pedwar cais, ac yn dilyn penodi Sue Essex i'r Cabinet, ysgrifennodd Clerc yr LGE at ymgeiswyr yn eu hysbysu bod eu ceisiadau wedi'u rhoi o'r neilltu am y tro nes i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth gytuno ar y ffordd ymlaen.

5. Ers ffurfio Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth, dangosodd mwy o bobl ddiddordeb yn y swydd.

**Goblygiadau i flaenraglen waith y Pwyllgor**

6. Gallai'r adolygiad fynd rhagddo yn nhymor yr Haf, yn amodol ar farn y Pwyllgor ar benodi ymgynghorydd arbenigol. Fodd bynnag, byddai'n rhaid canfod lle i'r rhan fwyaf o'r gwaith casglu tystiolaeth ac ystyried canlyniadau'r adolygiad o fewn amserlen y Pwyllgor ar gyfer tymor yr Hydref.

**Canlyniad**

7. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y canlynol:

- a yw'r Aelodau am barhau â'r adolygiad?
- a yw'r Aelodau'n fodlon â'r cylch gwaith presennol (LGE-10-99 (p.5) Atodiad 1) yn ogystal ag ychwanegu'r cyrff a nodwyd ym mharagraff 3?
- a yw Aelodau'n cytuno bod angen penodi ymgynghorydd arbenigol ar gyfer yr adolygiad hwn?
- a yw'r Aelodau'n dymuno ailagor y broses ymgeisio?
- enwebu (os yn briodol) un Aelod o bob plaid i eistedd ar banel cyfweld.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Mai 2000

**ATODIAD A**

**DETHOLIAD O GOFNODION LGE-10-99**

**Eitem 6: Adolygiad polisi cludiant cyhoeddus:** LGE-10-99 (tud.5)

6.1 Dywedodd y Cadeirydd bod y papur yn nodi cynigion ar gyfer bwrw ymlaen â'r adolygiad polisi cludiant cyhoeddus. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cynigion, cyn belled â bod Gofal Henoed yn cael eu hychwanegu i'r rhestr o gyrff i ymgynghori gyda hwy.

6.2Cytunwyd i benodi ymgynghorydd arbenigol i roi cyngor annibynnol yn ystod yr adolygiad. Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen i'r penodiad ddilyn y canllaw sy'n cael ei baratoi gan y Llywydd. Nodwyd y byddai'r ymgynghorydd arbenigol a'r swyddogion yn chwarae rhan gyflenwol yn yr adolygiad.

**LGE-10-99 (p.5)**

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL, YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO, TAI A THRAFNIDIAETH**

**ADOLYGIAD POLISI CLUDIANT CYHOEDDUS**

**Pwnc o dan sylw**
1. Yr adolygiad polisi arfaethedig o gludiant cyhoeddus.

**Natur yr adolygiad**
2. Byddai'r adolygiad polisi yn cymryd sawl mis i'w gwblhau. Byddai'n cynnwys casglu gwybodaeth oddi wrth ystod eang o gyrff sydd â diddordeb, yn ogystal â thrafodaethau gyda swyddogion y Cynulliad a sesiynau trafod. Byddai hyn yn cynnwys pob un o Bwyllgorau Rhanbarth y Cynulliad, gyda'r bwriad o sicrhau bod yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth i'r gwahanol broblemau o ran cludiant ym mhob rhanbarth. Byddai'r broses yn dod i'w hanterth gyda chreu adroddiad pwyllgor i'w ystyried gan y Cynulliad cyfan.

3. Byddai'r adolygiad mewn dwy ran:

- y camau tymor byr y mae eu hangen i hwyluso darparu gwasanaethau cludiant cyhoeddus gwell, o fewn pwerau presennol y Cynulliad a'r fframwaith rheoleiddio a threfniadaethol presennol.
- materion y tymor hir yn ymwneud â threfniadau trefniadaethol ar gyfer pennu polisi cludiant cyhoeddus, gan gynnwys rheoli'r diwydiant a rhoi cymorth i wasanaethau sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol.

Byddai'r adolygiad yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth gwasanaethau; ni fyddai'n mynd i'r afael â materion diogelwch cludiant.

4. Byddai'r adolygiad yn ceisio adeiladu ar y swm mawr o wybodaeth sydd eisoes yn bodoli am drafnidiaeth yng Nghymru gan osgoi ailadrodd gwaith sydd eisoes wedi'i wneud rywle arall. Byddai'n ystyried bod yr arolygon presennol o ran y polisi trafnidiaeth yng Nghymru wedi'u darllen a'u derbyn, yn arbennig adroddiad Grp Ymgynghorol Trafnidiaeth Cymru ar *'Etifeddiaeth Trafnidiaeth yng Nghymru'*.

**Allbwn**

5. Prif allbwn rhan gyntaf yr adolygiad fyddai rhestr o gamau penodol y gallai'r Cynulliad eu cymryd i wella gwasanaethau bysus a rheilffyrdd. Gallai hyn gynnwys unrhyw un o'r ystod lawn o faterion cludiant cyhoeddus, megis gwasanaethau rhwng y gogledd a'r de, cynnig am rwydwaith bysus cenedlaethol, gwasanaethau bysus gwledig, cysylltiadau bysus a threnau, tocynnau trwodd, mesurau blaenoriaethau bysus, cyflwr yr isadeiledd a chyfleusterau cysylltiedig, cysylltiadau â meysydd awyr, etc. Byddai un o'r allbynnau hyn yn ddatganiad o flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, a ddarperir i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol cysgodol yng nghyd-destun cylch nesaf cynnig rhyddfraint rheilffyrdd.

6. Prif allbwn ail ran yr adolygiad fyddai asesiad o fanteision ac anfanteision y gwahanol fodelau trefniadaethol y gellid eu mabwysiadu ar gyfer pennu a gweithredu polisi cludiant cyhoeddus yng Nghymru. Byddai'r rhain yn amrywio o barhad o'r trefniadau presennol hyd at Awdurdod Cludiant Teithwyr ar wahân a fyddai'n rheoli'r prif bolisi, a'r dulliau rheoleiddiol ac ariannol.

**Ystod yr adolygiad**

7. Byddai'r adolygiad yn canolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau bysus a rheilffyrdd, er na fyddai angen iddo gynnwys dulliau eraill i'r graddau lle byddai rhyng-foddolaeth well yn cynyddu defnydd o gludiant cyhoeddus (er enghraifft, cyfleusterau parcio a theithio, cludo beiciau ar drenau).

8. Ni fyddai'r adolygiad yn cynnwys cludiant awyr, am fod y weithrediaeth wedi dechrau ar astudiaeth o wasanaethau awyr yng Nghymru. Serch hynny, byddai'n cynnwys gwasanaethau cludiant cymunedol sy'n aml yn cymryd lle cludiant cyhoeddus confensiynol yn yr ardaloedd gwledig mwy anghysbell.

9. Ceir cylch gwaith drafft yn atodiad 1.

**Casglu gwybodaeth**

10. Byddai'r adolygiad yn ceisio sylwadau ystod eang o gyrff - ceir rhestr gychwynnol yn atodiad 2. Byddai hefyd yn ceisio sylwadau llawer o unigolion a fyddai'n gallu gwneud cyfraniad effeithiol i'r adolygiad. Mae'n sir y bydd y Pwyllgor yn dymuno siarad â nifer o'r cyrff neu'r unigolion yn bersonol, on oherwydd prinder amser bydd rhaid casglu llawer o'r wybodaeth yn ysgrifenedig.

11. Byddai ar yr adolygiad hefyd angen casglu gwybodaeth ar arferion gorau o ran cludiant cyhoeddus mewn gwledydd eraill yn Ewrop, yn arbennig y gwledydd hynny lle caiff y pwerau perthnasol eu rhannu rhwng y lefelau cenedlaethol a rhanbarthol. Hwyrach y gall y Comisiwn Ewropeaidd helpu gyda'r dasg hon neu fe allai ymgynghorydd arbenigol gynnal yr ymchwil angenrheidiol.

12. Fel a nodwyd uchod, y bwriad yw ceisio sylwadau'r Pwyllgorau Rhanbarth am faterion arbennig yn ymwneud â materion cludiant ym mhob rhanbarth. Yn ychwanegol, hwyrach y bydd Aelodau Pwyllgor yn dymuno cynnal ymweliadau i gyfarfod â gweithredwyr a defnyddwyr cludiant cyhoeddus yn eu hetholaethau neu eu rhanbarthau eu hunain gan roi adroddiad ar ôl hynny i'r Pwyllgor.

**Penodi ymgynghorydd arbenigol**

13. Hwyrach y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried a yw penodi ymgynghorydd arbenigol yn angenrheidiol ar gyfer yr adolygiad hwn. Os felly, rhoddir cyngor pellach gerbron y Pwyllgor. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol bod gwneud penodiadau o'r fath yn cymryd amser hir.

**Amserlen yr adolygiad**

14. Caiff y mwyafrif o'r gwaith ar gyfer yr adolygiad ei wneud yn ystod y gwanwyn, gyda'r bwriad o gwblhau adroddiad erbyn diwedd Mai.

**Goblygiadau ar gyfer rhaglen waith y Pwyllgor**

15. Darperir ar gyfer yr adolygiad drwy neilltuo amser yn ystod y mwyafrif o gyfarfodydd pythefnosol rheolaidd y Pwyllgor, yn ogystal â defnyddio'r tri slot ychwanegol sydd ar gyfer busnes y Pwyllgor yn ystod y gwanwyn.

**Casgliad**

16 . Estynnir gwahoddiad i'r Pwyllgor wneud sylwadau am y cynigion ar gyfer gweithredu'r adolygiad polisi cludiant cyhoeddus.

Yr Ysgrifenyddiaeth Pwyllgorau
Tachwedd 1999

**ADOLYGIAD 1**

**ADOLYGIAD POLISI CLUDIANT CYHOEDDUS**

**CYLCH GWAITH DRAFFT**

1. I ystyried polisïau cludiant cyhoeddus y Cynulliad (gan gynnwys gwasanaethau bysus, rheilffyrdd a chludiant cymunedol) a nodi unrhyw newidiadau o fewn y fframwaith statudol, rheoleiddiol a threfniadaethol sydd eisoes yn bodoli a fyddai'n hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau gwell.

2. I ystyried a fyddai unrhyw newidiadau i'r fframwaith statudol, rheoleiddiol a threfniadaethol sydd eisoes yn bodoli yn hwyluso'r ddarpariaeth o wasanaethau gwell.

**ATODIAD 2**

**ADOLYGIAD POLISI CLUDIANT CYHOEDDUS**

**CYRFF Y GELLID EU GWAHODD I WNEUD CYFLWYNIADAU**

**Cyrff y Llywodraeth neu gyrff rheoli**
Y Comisiwn Ewropeaidd
Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau
Y Comisiwn dros Drafnidiaeth Integredig
Gweithrediaeth yr Alban
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (ac ambell awdurdod lleol unigol o bosibl)
Cymdeithas Cynghorau Bro a Thref Cymru
Awdurdod Rheilffyrdd Strategol cysgodol
Y Comisiynwyr Traffig
Un neu ragor o Awdurdodau Cludiant Teithwyr sydd eisoes yn bodoli yn Lloegr

**Cyrff diwydiannol**
Cyd-ffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru (ac ambell gwmni bysus unigol o bosibl)
Cymdeithas Cwmnïau Gweithredu Trenau (ac ambell gwmni trenau unigol o bosibl)
Railtrack
Cymdeithas Cludiant Cymunedol

**Cynrychiolwyr Teithwyr**
Anabledd Cymru
Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Rheilffyrdd Cymru
Ffederasiwn Cenedlaethol Defnyddwyr Bysus
Cyngor Defnyddwyr Cymru

**Cyrff eraill**
Cyfeillion y Ddaear Cymru
Sustrans
Transport 2000

**DETHOLIAD O GOFNODION EPT-02-00**

**Eitem 3: Adolygiad o Bolisi Trafnidiaeth Gyhoeddus** - papur EPT-02-00 (tud. 2)

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd am farn y Pwyllgor ar gynlluniau'r hen Bwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd (LGE) i ymgymryd ag adolygiad o bolisi trafnidiaeth gyhoeddus a dywedodd ei fod wedi trafod y mater yn anffurfiol gyda llefarwyr y pleidiau.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i barhau â'r adolygiad gyda chylch gwaith diwygiedig (gwelir y diwygiadau mewn print bras):

- Ystyried polisïau trafnidiaeth gyhoeddus y Cynulliad (yn cynnwys gwasanaethau bysys, rheilffyrdd a thrafnidiaeth gymunedol) a nodi unrhyw newidiadau o fewn y fframwaith statudol, rheoliadol a chyfundrefnol presennol a fyddai'n hwyluso darparu **a defnyddio** gwasanaethau

gwell **a rhai integredig**;

- Ystyried a fyddai unrhyw newidiadau i’r fframwaith statudol, rheoliadol a chyfundrefnol presennol sy’n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus yn caniatáu i well gwasanaethau gael eu darparu.

Byddai cwmpas yr adolygiad yn cynnwys prisiau tocynnau, peiriant tocynnau, a thacsis. Ychwanegid y cyrff canlynol at y rhestr o sefydliadau y dylid ymgynghori â hwy: Parciau Cenedlaethol, Cymdeithas Ddatblygu Rheilffyrdd, cyrff Defnyddwyr Rheilffordd, a Chymdeithas y Cerddwyr.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor i hysbysebu am gynghorwr allanol ac ailagor y broses ymgeisio a gychwynnwyd gan LGE, ac etholwyd yr Aelodau canlynol i fod ar y panel cyfweld: Richard Edwards (Cadeirydd), David Davies, Jocelyn Davies, John Griffiths a Christine Humphreys.

*Pwyntiau gweithredu*

- Y Clerc i adolygu’r cylch gwaith ar gyfer Adolygu Trafnidiaeth a gwahodd ceisiadau am ymgynghorydd arbenigol
- Y Cadeirydd, David Davies, Jocelyn Davies, John Griffiths a Christine Humphreys i gyfweld ymgeiswyr ar gyfer ymgynghorydd arbenigol